

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA SKYPE FOR BUSINESS DYDD MERCHER, 4 TACHWEDD 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cyngorydd E Venables – Cadeirydd

DG Howells
G Thomas

RM James
MC Voisey

B Sedgebeer

SG Smith

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM Granville a/ac A Williams

Swyddogion:

Michael Pitman
Andrew Rees

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

184. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd pob Aelod fuddiant personol yn eitem 4 ar yr agenda - Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021/2022 – gan eu bod i gyd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.

185. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod 12/03/2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

186. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021/2022

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lefel ac ystod y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei darparu i'w Aelodau ar gyfer blwyddyn 2021/2022 y Cyngor.

Gofynnodd i'r Pwyllgor hefyd roi unrhyw sylwadau ac argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Drafft 2021/2022.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mai 2021/2022 oedd trydydd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel), a'r degfed a gyhoeddwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1). Estynnodd y Mesur gyfrifoldebau'r Panel a'i bwerau o dan Adran 142 i benderfynu (rhagnodi) taliadau i aelodau awdurdodau perthnasol.

Ychwanegodd fod cynrychiolwyr y Panel wedi cynnal cyfarfodydd ymgynghori o bell ar eu cynigion, a fynychwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Dangoswyd penderfyniadau Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021 yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD MERCHER, 4 TACHWEDD 2020

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd er bod cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus yn parhau, bod y Panel o'r farn bod cyfiawnhad dros gynnydd yn y cyflog sylfaenol a'i fod wedi cynnig cynnydd o £150 y flwyddyn (1.06%) i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau'r prif gynghorau o 1 Ebrill 2021. Mae'r cynnydd arfaethedig a gymhwysir at gyflog sylfaenol aelodau'r prif gynghorau yn cydnabod y dyletswyddau sylfaenol a ddisgwylir gan bob Aelod Etholedig. Y cyflog sylfaenol yn 2021/2022 ar gyfer Aelodau Etholedig y prif gynghorau fydd £14,368, a dangoswyd hyn ym Mhenderfyniad 1.

Yn yr un modd, mae'r Panel wedi penderfynu y byddai cyflogau uwch yn cael eu cynyddu ar yr un gyfradd â chyflogau sylfaenol sef 1.06%, a ddangoswyd ym Mhenderfyniad 2. Ychwanegodd na fyddai unrhyw godiadau ychwanegol yn cael eu talu i ddeiliaid cyflog uwch yn 2021/2022. Roedd y Panel yn ystyried bod Arweinwyr ac aelodau'r weithrediaeth yn cario'r atebolrwydd unigol mwyaf. Cynigiodd y Panel gynyddu cyflogau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinydd y Grŵp i'r lefelau canlynol:

Uwch gyflogau (gan gynnwys cyflog sylfaenol)	
Yr Arweinydd	£49,974
Dirprwy arweinydd	£35,320
Aelodau gweithredol	£30,773
Cadeiryddion pwyllgorau (os cânt gydnabyddiaeth ariannol):	£23,161
Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf ³	£23,161
Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill	£18,108

Penderfynodd y Panel hefyd ym Mhenderfyniad 3 y dylid talu cyflogau dinesig fel a ganlyn:

Cyflogau dinesig (gan gynnwys cyflog sylfaenol)	
Y Maer	£23,161
Yr Arglwydd Faer	£18,108

Gofynnodd Aelod mewn perthynas â thudalen 34, adran 3.22 o'r adroddiad lle mae'n nodi y dylai Aelodau eisoes ddefnyddio gwasanaethau e-bost electronig a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth yn electronig, beth oedd barn yr Aelodau am hyn. Ychwanegodd bod angen i Aelodau weithio gartref yn ystod Pandemig Covid-19. A oedd disgwyl i Aelodau fod â chyfleusterau'r rhyngrwyd yn eu lle, neu a oedd yr Aelodau'n teimlo bod angen iddynt sefydlu hyn o ganlyniad i Covid-19.

Trafododd y Pwyllgor y pwynt hwn a daeth i'r casgliad bod cyfleusterau rhyngrwyd priodol yn rhywbeth y byddai Aelodau eisoes wedi'i gael cyn Pandemig Covid-19, a chredodd nad oedd angen ad-daliad arnynt am gostau sy'n gysylltiedig â band eang.

Cododd Aelod y mater nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd yn swydd â thâl, ond credai ei fod yn rhannu cyfrifoldebau tebyg â Chadeiryddion eraill ac felly y dylid ei dalu yn unol â hynny. Gofynnodd yr Aelodau i hyn gael ei godi yn y Cyngor fel y gellid edrych arno ymhellach.

Cododd Aelod fod rhyddhad treth ar gael mewn perthynas â phandemig Covid 19 nad oedd yn hysbys iawn. Cynigiodd y dylai gwybodaeth fod ar gael ar wefan y Cyngor i gyfeirio Aelodau at wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gael rhagor o wybodaeth

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru 2021/2022 ac wedi darparu'r argymhellion canlynol i'r Cyngor:

- Dylid trafod ac ymchwilio i gydnabyddiaeth bosibl Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Dylai gwybodaeth fod ar gael ar wefan y Cyngor i gyfeirio Aelodau at wefan Cyllid a Thollau EM i gael rhagor o wybodaeth yn ymwneud â rhyddhad treth.

187. RHAGLEN DATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor a gweithgareddau cysylltiedig. Ychwanegodd mai'r diben oedd gofyn hefyd am unrhyw bynciau i'w cynnwys ar y rhaglen.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Sesiynau Hyfforddi a Datblygu Aelodau, Sesiynau Briffio Cyn-Gyngor a Sesiynau Hyfforddi'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ers y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd diwethaf ar 17 Hydref 2019. Rhestrwyd y rhain yn y tabl yn 4.1, 4.2 a 4.3 yr adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y sesiynau briffio cyn-gyngor a drefnwyd ar gyfer y dyfodol, sef:

- 18 Tachwedd 2020: Ymgynghoriad ar y Gyllideb
- 16 Rhagfyr 2020: Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- I'w gadarnhau: Newidiadau i'r Cwricwlwm Newydd

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Sesiynau Hyfforddi Pwyllgor Rheoli Datblygu a drefnwyd ar gyfer y dyfodol a oedd wedi'u hamserlennu fel a ganlyn:

- 10 Rhagfyr 2020: Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Cynllunio Rhanbarthol/Cymru ac Adnoddau'r Gwasanaeth Cynllunio
-

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y sesiynau Hyfforddi a Datblygu Aelodau Arfaethedig ar gyfer y dyfodol a drefnwyd fel a ganlyn:

- 5 Tachwedd 2020 – Hyfforddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 25 Tachwedd 2020 - Sgiliau Cadeirio Craffu
- 30 Tachwedd 2020 - Sgiliau Cwestiynu Craffu
- Defnyddio Mapiau Pontydd – I'w gadarnhau
- Diogelu - I'w gadarnhau
- Canlyniadau Addysg – I'w gadarnhau

Esboniodd fod nifer o gyrsiau E-ddysgu wedi'u darparu ers dechrau'r tymor presennol. Roedd yr E-ddysgu canlynol wedi'i gwblhau gan aelodau:

- Ymsefydlu Corfforaethol **(11 Aelod)**
- Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data **(4)**
- Offer Sgriniau Arddangos **(3)**
- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Tân **(4)**

- Cod Ymddygiad TGCh **(9)**
- Diogelu Plant ac Oedolion **(14)**
- Trais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cyn hynny, cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau at y modiwl E-ddysgu a oedd i'w gyflwyno ar sail Cymru gyfan. Cadarnhaodd fod fersiwn drafft y modiwl hyfforddi wedi'i gwblhau a'i fod wedi'i dreialu gan Gadeirydd y pwyllgor hwn. Roedd y Cadeirydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ac wedi awgrymu nifer o newidiadau a oedd i fod i gael eu gwneud cyn cyflwyno fersiwn derfynol y modiwl hyfforddi. Gofynnodd a oedd gan Aelodau'r pwyllgor hwn ddiddordeb mewn ymgymryd â'r modiwl hyfforddi hwn, byddai'n cysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ogystal ag Academi Wales wedi darparu rhai canllawiau defnyddiol ar amrywiaeth o bynciau, y cynhwyswyd dolenni i'r rhain yn adran 4.7.6 o'r adroddiad.

Gofynnodd Aelod a ellid cynnwys cyflwyniad ar lechyd Meddwl fel Briff Cyn-Gyngor.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd pe bai gan Aelodau unrhyw bynciau pellach i'w hychwanegu, y dylent ei e-bostio ef neu'r tîm ar unrhyw adeg gydag awgrymiadau.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- wedi nodi cynnwys yr adroddiad; a
- Darparu pynciau ychwanegol ar gyfer sesiynau briffio cyn-gyngor, Sesiynau Datblygu Aelodau a Modiwlau E Ddysgu.

188. EITEMAU BRYD

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:58